

FAO

Wylfa Newydd Casework Team

Wylfa@pins.gsi.gov.uk

Parthed: Archwilio Gwaith Paratoi a Chlirio Safle arfaethedig Wylfa Newydd o dan y Gorchymyn Cydsynio Datblygu(DCO)

Ysgrifennaf i ofyn i'r Awdurdod Archwilio dorri allan o'r Gorchymyn Cydsynio Datblygu arfaethedig (DCO) pob agwedd o waith Paratoi a Chlirio Safle sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd o dan Ddeddf Cynllunio 2008, yng Nghais EN010007 am DCO ar gyfer Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa Newydd.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, tynnodd Horizon ar 5 Chwefror 2019 y Cais Cynllunio Paratoi a Chlirio Safle 38C310F/EIA/ECON yn ôl. Cafodd y Cais Cynllunio ei Alw i Mewn gan Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2018, ar gyfer ymchwiliad annibynnol llawn a phriodol o dan system Ymchwiliad Cynllunio Lleol Cyhoeddus Cymreig datganoledig.

Nid yw'n anarferol i ddatblygwyr dynnu Ceisiadau Cynllunio yn ôl cyn penderfyniad Cynllunio, oherwydd nad yw'r datblygwr yn bwrw ymlaen gyda'r datblygiad arfaethedig neu yn ailfeddwl am gynnig datblygu gwahanol neu ddiwygiedig ar gyfer yr un safle.

Yn sicr, ni all Awdurdod Archwilio DCO Wylfa Newydd barhau yn awr i archwilio'r cynigion Paratoi a Chlirio Safle DCO presennol sydd yn eu hanfod yr un rhai â chynigion Cais Cynllunio Paratoi a Chlirio Safle a ddiddymwyd gan Horizon ar 5 Chwefror 2019.

1. Felly, wnaiff yr Awdurdod Archwilio yn awr daflu'r cynigion Gwaith Paratoi a Chlirio Safle presennol allan o DCO Wylfa Newydd, gan fod y Gwaith Paratoi a Chlirio Safle hwn yr un peth yn ei hanfod â'r cynigion Paratoi a Chlirio Safle a ddiddymwyd yn barod gan Horizon o dan y Cais Cynllunio Wedi ei Alw i Mewn?
2. Wnaiff yr Awdurdod Archwilio hefyd gadarnhau y bydd o hyn ymlaen yn archwilio cynigion Paratoi a Chlirio Safle arwyddocaol ddiwygiedig neu wahanol gan Horizon o dan y DCO?

Ym marn y cyhoedd, bydd parhau gyda'r status quo o dan y DCO yn golygu bod yr Awdurdod Archwilio yn ochri gyda Horizon wrth normaleiddio camddefnydd y system gynllunio yng Nghymru gan y datblygwr Niwclear. Bydd yr Awdurdod Archwilio hefyd yn rhoi hygredded i amharch tuag at weithrediad democrataidd priodol datganoli yng Nghymru. Mae'r Datblygwr niwclear yn ceisio yn gwbl ddigywilydd i gynnwys y cynigion Paratoi a Chlirio Safle a ddiddymwyd o dan gochl DCO. Fydd Awdurdod Archwilio'r DCO yn aros yn gyfrannog at hyn?

Olaf a Helen Davies